# Atodiad 2 – Cydymffurfiaeth ag Archwiliadau Allanol (Hydref 2025)

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau gweithredu sy'n weddill a nodwyd i gefnogi argymhellion archwilio rheoleiddiol allanol, gan nodi'r sefyllfa bresennol ym mis Mai 2025.

**This document is available in English. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. Rydym hefyd yn fodlon darparu'r ddogfen hon ar ffurf print bras, sain a braille; cysylltwch â'r Tîm Perfformiad a Gwella (mae'r manylion cyswllt ar y dudalen nesaf).**



**Conwy - Sir flaengar sy'n creu cyfleoedd**

**Conwy - a progressive County creating opportunity**

# Hoffem glywed eich barn!

Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth gyfoethog Conwy ac o'r farn ei bod yn hanfodol clywed llais pawb a'u cydnabod. Hoffem glywed gennych chi am y pethau sy'n effeithio arnoch chi. A yw ein hamcanion hirdymor yn addas ar gyfer eich cymuned ac a ydym yn gwneud y pethau iawn? I gael mwy o wybodaeth neu i rannu eich barn am unrhyw beth yn ein Cynllun Corfforaethol, mae croeso ichi gysylltu â ni.

**Drwy e-bost:** sgwrsysir@conwy.gov.uk

**Dros y ffôn:** 01492 57 4000

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome telephone calls in English and Welsh.

Gall cwsmeriaid Gwasanaeth *BT Relay* sydd â nam ar eu clyw neu ar eu lleferydd gysylltu ag unrhyw un o wasanaethau'r Cyngor drwy ddeialu **18001** cyn y rhif sydd ei angen arnynt.

**Drwy Iaith Arwyddion:** Gall defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain gysylltu â ni gan ddefnyddio dehonglydd Iaith Arwyddion, drwy'r gwasanaeth *InterpretersLive!* y mae Sign Solutions yn ei ddarparu – ewch i www.conwy.gov.uk/cy/Council/Contact-Us/Sign

**Drwy'r post:** Y Gwasanaeth Pobl a Pherfformiad
Tîm Perfformiad a Gwella
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Blwch Post 1
Bae Colwyn
LL29 0GG

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a Saesneg. Ni fydd unrhyw oedi wrth ymateb i ohebiaeth a geir yn y naill iaith na'r llall.

## Pobl Ifanc

Pobl ifanc yw'r dyfodol a hoffem glywed eich barn chi. Mae'r gwasanaethau sy'n gweithio gyda phobl ifanc eisiau gwrando a rhoi cyfle ichi leisio'ch barn. Pwrpas Cyngor Ieuenctid Conwy yw rhoi llais a dewis i chi yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnoch chi.

Os hoffech chi gymryd rhan, ewch i dudalen Facebook y Cyngor Ieuenctid neu i wefan y Gwasanaeth Ieuenctid, neu cysylltwch â ni:

**Drwy e-bost:** gwasanaethieuenctid@conwy.gov.uk

**Dros y ffôn:** 01492 575100

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome telephone calls in English and Welsh. Gall cwsmeriaid Gwasanaeth *BT Relay* sydd â nam ar eu clyw neu ar eu lleferydd gysylltu ag unrhyw un o wasanaethau'r Cyngor drwy ddeialu **18001** cyn y rhif sydd ei angen arnynt.

**Drwy Facebook ac Instagram:** @GIConwyYS

## I gael y wybodaeth ddiweddaraf:

Cofrestrwch i greu cyfrif ar Fy Nghonwy er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf sydd fwyaf perthnasol i chi, yn ogystal â llunio a rheoli eich ceisiadau gwasanaeth ar-lein.

Hoffwch ni ar Facebook.

Ewch ar ein gwefan i gael gwybod am wasanaethau, yn cynnwys i weld ein Cynllun Corfforaethol ac adroddiadau perfformiad.

Ewch i'n gwe-dudalen 'Dweud eich dweud'

## Cynnwys

1. Trosglwyddo Asedau Cymunedol (Adroddiad Cenedlaethol) ................................7

2. Archwiliad o Wasanaethau Hamdden (Adroddiad Lleol)..........................................8

3. Lles Caffael yng Nghymru (Adroddiad Cenedlaethol)..............................................9

4. Asesu Risg a Sicrwydd (Adroddiad Lleol)...............................................................10

5. Parodrwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer Sero Net erbyn 2030 (Adroddiad Cenedlaethol) ..........................................................................................................11

6. Amser am Newid - Tlodi yng Nghymru (Adroddiad Cenedlaethol)..........................11

7. Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb - Mwy nag ymarfer blwch ticio (Adroddiad Cenedlaethol) ..........................................................................................................11

8. Camu Ymlaen (Adroddiad Lleol)..............................................................................12

9. Craciau yn y Sylfeini – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru (Adroddiad Cenedlaethol) ..........................................................................................................13

10. Adolygu Digartrefedd (Adroddiad Cenedlaethol) ..................................................14

11. Defnyddio Gwybodaeth am Berfformiad (Adroddiad Lleol)...................................15

12. Strategaeth Ddigidol (Adroddiad Lleol) .................................................................16

13. Datblygu Cynaliadwy – Gwneud y Defnydd Gorau o Dir Llwyd ac Adeiladau Gwag (Adroddiad Cenedlaethol)............................................................................................17

14. Menter Gymdeithasol (Adroddiad Cenedlaethol)...................................................19

15. Ailgylchu a Rheoli Gwastraff (Adroddiad Lleol).....................................................20

16. Cynaladwyedd Ariannol (Adroddiad Lleol).............................................................21

17. Comisiynu Lleoliadau Cartrefi Gofal Pobl Hŷn (Adroddiad Lleol / Rhanbarthol) ...21

18. Adolygiad Cyflym o Drefniadau Amddiffyn Plant (Adroddiad Cenedlaethol).........22

19.  Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng - Llif allan o'r ysbyty (Adroddiad Rhanbarthol) ..........................................................................................................................22

# Cydymffurfiaeth ag Archwiliadau

Mae'r tabl isod yn cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r cynnydd rydym wedi'i wneud wrth gyflawni'r camau gweithredu a nodwyd yn sgil archwiliadau gan gyrff rheoleiddio.

## 1. Trosglwyddo Asedau Cymunedol (Adroddiad Cenedlaethol)

| Teitl | Statws | Y wybodaeth ddiweddaraf |
|---|---|---|
| (FN01-04) Llunio polisi Trosglwyddo Asedau Cymunedol a sicrhau bod y polisi'n ymdrin yn ddigonol ag ôl-ofal, cefnogaeth hirdymor, cefnogaeth ar ôl trosglwyddo, cyfeirio at gyfleoedd am gyllid a rhannu'r gwersi a ddysgir am yr hyn sy'n gweithio'n dda.<br>**Dyddiad cychwyn:** Tachwedd 2019<br>**Dyddiad gorffen:** Ionawr 2026 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Bydd polisi Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn rhan o'r Cynllun Rheoli Asedau newydd wedi i Lywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau. Bwriedir cyhoeddi'r rheiny erbyn diwedd 2025. |

## 2. Archwiliad o Wasanaethau Hamdden (Adroddiad Lleol)

| Teitl | Statws | Y wybodaeth ddiweddaraf |
|---|---|---|
| (FN01-02) Adolygu'r arolygon o gyflwr adeiladau a gynhaliwyd yn ddiweddar a nodi rhaglen welliannau wedi'i blaenoriaethu ar gyfer ein cyfleusterau hamdden adeiledig, a fydd yn cyd-fynd â'n strategaeth ar gyfer y gwasanaethau hamdden.<br>**Dyddiad dechrau:** Chwefror 2020<br>**Dyddiad gorffen:** Mawrth 2026 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae'r gwasanaeth Hamdden yn gweithio â'r tîm Rheoli Cyfleusterau i ddatblygu arolygon cyflwr newydd yn sgil y buddsoddiadau a wnaed yn y pum mlynedd diwethaf. Defnyddir canfyddiadau'r arolygon yn sail ar gyfer y rhaglen welliannau wedi'i blaenoriaethu.<br>Cymeradwyir y strategaeth ar gyfer y gwasanaethau hamdden cyn diwedd blwyddyn ariannol 2025/2026.<br>Diwygio'r dyddiad gorffen o 31 Hydref 2025 i 31 Mawrth 2026. |
| (FN04-01) Meithrin cyswllt â Sir Ddinbych a Gwynedd i drafod eu strategaethau cyfleusterau o'r newydd a chadarnhau a oes cyfleoedd i gydweddu'r ddarpariaeth ar draws ffiniau.<br>**Dyddiad dechrau:** Chwefror 2020<br>**Dyddiad gorffen:** Mawrth 2026 | Oren<br>Dan sylw | O ganlyniad i gystadleuaeth gan gwmnïau newydd yn y sector preifat yng Ngwynedd a Sir Ddinbych, a Chonwy o bosib (*PureGym*), bydd angen mwy o amser i ddatblygu'r argymhelliad hwn. Fe ddaw dan ystyriaeth eto ddiwedd y flwyddyn.<br>Diwygio'r dyddiad gorffen i 31 Mawrth 2026. |

| Teitl | Statws | Y wybodaeth ddiweddaraf |
|---|---|---|
| (FN05-03) Adolygu'r data i ganfod a oes modd adnabod pobl nad ydynt yn defnyddio ein cyfleusterau hamdden. Gweithio â phartneriaid ledled y rhanbarth i sicrhau eglurder ynglŷn â'r rhan briodol o'r farchnad i'w thargedu.<br>**Dyddiad dechrau:** Chwefror 2020<br>**Dyddiad gorffen:** Hydref 2025 | Cyflawnwyd | Adolygwyd y data a'u defnyddio'n sail ar gyfer diwygio ffioedd a thaliadau ym mis Ebrill 2025, gan gynnwys dileu hen ffioedd.<br>Ni fedrwn weithio â phartneriaid yn y rhanbarth i gadarnhau'r rhan briodol o'r farchnad i'w thargedu oherwydd y bygythiad oddi wrth *PureGym*. Mae'n rhaid i bob Awdurdod Lleol weithredu'n wahanol gan ddibynnu ar yr hyn a gynigir.<br>Argymhellir dod â'r cam gweithredu hwn i ben. |
| (FN06-01) Dylai'r Cyngor gwblhau ei waith i ddatblygu cynllun sy'n darparu gwasanaeth hamdden sy'n ariannol hyfyw.<br>**Dyddiad dechrau:** Chwefror 2020<br>**Dyddiad gorffen:**Mawrth 2026 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Datblygwyd cynllun pum mlynedd i ategu'r strategaeth a'r weledigaeth ar gyfer cwtogi ar gostau. Mae'r cynllun ar ffurf drafft ar hyn o bryd ac fe'i hystyrir drwy'r drefn ddemocrataidd erbyn diwedd 2025/2026.<br>Diwygio'r dyddiad gorffen o fis Hydref 2025 i fis Mawrth 2026. |

### 3. Lles Caffael yng Nghymru (Adroddiad Cenedlaethol)

| Teitl | Statws | Y wybodaeth ddiweddaraf |
|---|---|---|
| (FN02-01) Defnyddio mecanwaith neu adnodd Llywodraeth Cymru i fonitro gweithgareddau ac adrodd yn eu cylch, yn benodol ar gyfer ymarferion caffael unigol ac yn gyffredinol i ganfod sut mae'r gwariant ar gaffael yn bodloni'r nodau a'r amcanion lles.<br>**Dyddiad dechrau:** Mai 2021<br>**Dyddiad gorffen:** Rhagfyr 2025 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae gweithgor traws-sector dan arweiniad Llywodraeth Cymru'n dal wrthi'n datblygu a mireinio System Themâu, Mesurau a Chanlyniadau (TOM) Cymru. Adolygodd y gweithgor ddrafft gweithredol o TOM Cymru ym mis Awst 2025 ac fe addaswyd nifer helaeth o'r mesurau. Mae'r awdurdodau peilot wrthi'n treialu'r TOM newydd gyda chymorth *Social Value Portal*.<br>Ymestyn y dyddiad gorffen o fis Rhagfyr 2025 i fis Medi 2026 fel bod digon o amser i dreialu'r TOM newydd. |

| Teitl | Statws | Y wybodaeth ddiweddaraf |
|---|---|---|
| (FN04-01) Nodi'n glir sut rydym wedi ystyried effaith ein penderfyniadau caffael ar garbon ac yn achos cytundebau adeiladu neu isadeiledd, mynnu'n bendant bod y cynlluniau'n ddi-garbon net gydol eu hoes.<br>**Dyddiad dechrau:** Mai 2021<br>**Dyddiad gorffen:** Rhagfyr 2025 | Cyflawnwyd | Ymdriniwyd â hyn yn y Rheolau Gweithdrefnau Contractau newydd sy'n pennu'r gofyn i gyflenwyr lunio Cynlluniau Lleihau Carbon yn unol â Nodyn Polisi Caffael Cymru 06/21.<br>Argymhellir dod â'r cam gweithredu hwn i ben. |

## 4. Asesu Risg a Sicrwydd (Adroddiad Lleol)

| Teitl | Statws | Y wybodaeth ddiweddaraf |
|---|---|---|
| (FN01-01) Er mwyn cyflawni ei uchelgais sero net, mae angen i'r Cyngor brisio ei gynllun gweithredu yn llawn a sicrhau ei fod yn gyson â'i Gynllun Ariannol Tymor Canolig.<br>**Dyddiad dechrau:** Medi 2023<br>**Dyddiad gorffen:** i'w gwblhau | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Phartneriaethau Lleol wedi llunio Cynlluniwr Sefyllfaoedd Sero Net, wedi'i addasu ar gyfer pob awdurdod lleol yn benodol. Bydd y Cyngor yn defnyddio'r data sy'n deillio o'r cynlluniwr sefyllfaoedd i amlygu'r costau cyfalaf a'r arbedion posibl o leihau allyriadau drwy ddatgarboneiddio portffolio adeiladau'r Cyngor mewn amryw wahanol sefyllfaoedd sy'n arwain at sero net. Cyflwynir y cynlluniwr ym mis Ebrill 2025.<br>Oherwydd prinder cyllid, bydd angen i'r Cyngor flaenoriaethu ei holl uchelgeisiau ac felly pan ddaw unrhyw gostau ychwanegol yn hysbys, bydd yn rhaid penderfynu wedyn a yw'n fforddiadwy. |

## 5. Parodrwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer Sero Net erbyn 2030 (Adroddiad Cenedlaethol)

| Teitl | Statws | Y wybodaeth ddiweddaraf |
|---|---|---|
| Darparu modiwlau Hyfforddiant Llythrennedd Carbon ar gyfer yr holl staff, uwch-arweinwyr ac aelodau etholedig.<br>**Dyddiad dechrau:** Medi 2023<br>**Dyddiad gorffen:** Mawrth 2026 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Cyflwynwyd y modiwl e-ddysgu sero net i Fwrdd Rhaglen Her yr Hinsawdd a'i cymeradwyodd ym mis Ebrill 2024. Pennodd y dylunwyr bris ychwanegol o £7,000 i gynhyrchu'r modiwl terfynol ac felly rydym yn ymchwilio i'r posibilrwydd y gall gwasanaethau mewnol y Cyngor gynhyrchu fersiwn derfynol yn rhad ac am ddim. Rydym yn dal i drafod y dewisiadau â swyddogion y gwasanaeth TG. |

## 6. Amser am Newid - Tlodi yng Nghymru (Adroddiad Cenedlaethol)

| Teitl | Statws | Y wybodaeth ddiweddaraf |
|---|---|---|
| (FN04-01) Adolygu ein hasesiadau effaith integredig neu asesiadau cyffelyb.<br>**Dyddiad dechrau:** Medi 2023<br>**Dyddiad gorffen:** Mawrth 2027 | Oren<br>Dan sylw | Ni wnaed mwy o gynnydd â'r cam gweithredu hwn. Mae'r Cyngor yn deall fod arno angen adolygu ei ymagwedd at asesiadau effaith integredig, gan symleiddio a digideiddio'r broses. Mae hynny'n ddarn mawr o waith, fodd bynnag, a cheir prinder adnoddau i'w gyflawni ar hyn o bryd. |

## 7. Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb - Mwy nag ymarfer blwch ticio (Adroddiad Cenedlaethol)

| Teitl | Statws | Y wybodaeth ddiweddaraf |
|---|---|---|
| Adolygu ein dull cyffredinol o ymdrin ag Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb gan ystyried canfyddiadau'r adroddiad hwn a'r canllawiau manwl y mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a'r Tudalennau Arferion yn eu darparu.<br>**Dyddiad dechrau:**Mai 2023<br>**Dyddiad gorffen:**Mawrth 2026 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Eir ati i ymchwilio i arferion da a chymerodd tîm Conwy Gynhwysol ran mewn hyfforddiant cyn dechrau adolygu'r ymagwedd at yr Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb. Byddwn yn cwrdd â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ym mis Tachwedd 2025. |

## 8. Camu Ymlaen (Adroddiad Lleol)

| Teitl | Statws | Y wybodaeth ddiweddaraf |
|---|---|---|
| (FN01-01) Dangos bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy wrth wraidd ein hystyriaethau ynglŷn â'n hasedau yn y dyfodol.<br>**Dyddiad dechrau:** Medi 2023<br>**Dyddiad gorffen:** Ionawr 2026 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Caiff yr argymhelliad hwn ei gynnwys yn y Cynllun Rheoli Asedau y rhagwelwn ei gwblhau erbyn mis Ionawr 2026. |
| (FN02-01) Datblygu ymhellach y modd y defnyddir meincnodi i lywio gwaith cynllunio, pennu cyllidebau a mesur llwyddiant cynlluniau ar gyfer asedau a'r gweithlu yn fwy hirdymor.<br>**Dyddiad dechrau:** Medi 2023<br>**Dyddiad gorffen:** Ebrill 2026 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | **Asedau**<br>Rydym yn gweithio fel tîm i asesu'r dulliau meincnodi a allai fod o fudd i ni. Un o'r heriau allweddol yw bod strwythur pob cyngor yn amrywio ac felly nad oes modd cymharu'n union bob tro. Credwn fod meincnodi anffurfiol yn gweithio'n dda i ni - mynd i ddigwyddiadau ymarfer da'r Gymdeithas Llywodraeth Leol yn Lloegr, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Archwilio Cymru a defnyddio ein rhwydweithiau i ofyn cwestiynau a cheisio syniadau newydd.<br>**Y Gweithlu**<br>Mae amryw ddulliau mesur perfformiad yn y strategaeth y mae gwybodaeth ar gael ar eu cyfer bellach wedi i'r flwyddyn ddod i ben. Dangosyddion perfformiad yw rhai ohonynt, ac eraill yn ganlyniadau data. Cyflwynir y wybodaeth honno yn yr adroddiad nesaf ynglŷn â'r cynnydd wrth weithredu'r strategaeth.<br>Mae'r Cyngor yn rhwydweithio a meincnodi arferion da ym maes Adnoddau Dynol drwy grwpiau rhwydweithio yng ngogledd Cymru, Cymru gyfan a'r Deyrnas Unedig. Mae aelodau o'r tîm hefyd yn rhan o grŵp Cymru gyfan ar gyfer datblygu meincnodau Adnoddau Dynol, sydd wrthi'n datblygu ystadegau meincnodi newydd yn y maes. Cymeradwywyd cyfres newydd o ddangosyddion perfformiad gydol Cymru a bydd y data ar gael drwy Data Cymru. Pan ysgrifennwyd yr adroddiad hwn, roedd Data Cymru'n dal wrthi'n cwblhau'r wybodaeth feincnodi ddiwedd y flwyddyn. |

## 9. Craciau yn y Sylfeini – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru (Adroddiad Cenedlaethol)

| Teitl | Statws | Y wybodaeth ddiweddaraf |
|---|---|---|
| (FN01-01) Datblygu cynlluniau gweithredu lleol sy'n cynnwys dulliau mesur canlyniadau ar gyfer y gwasanaethau rheoli adeiladu'n benodol.<br>**Dyddiad dechrau:** Tachwedd 2023<br>**Dyddiad gorffen:** Rhagfyr 2026 | Oren<br>Dan sylw | Oherwydd prinder staff a'r gofynion cenedlaethol ychwanegol am hyfforddiant gorfodol, ni fu modd i'r tîm gyflawni hyn.<br>Diwygio'r dyddiad terfyn o 31 Mawrth 2025 i 31 Rhagfyr 2026. |
| (FN02-01) Adolygu ein rheolaeth ariannol ar reoli adeiladu ar fyrder a sicrhau ein bod yn cydymffurfio'n llwyr â'r Rheoliadau. Dylent<br>- Sefydlu amserlen reolaidd ar gyfer adolygu ffioedd.<br>- Diwygio ffioedd i sicrhau y codir tâl am wasanaethau yn unol â'r rheoliadau.<br>**Dyddiad dechrau:** Tachwedd 2023<br>**Dyddiad gorffen:** Ebrill 2026 | Oren<br>Dan sylw | Eto, ni fu modd cyflawni hyn oherwydd prinder staff ond mae'r tîm yn aros i gael cyfarfod â chyfrifydd y gwasanaeth er mwyn trafod y mater ymhellach gyda'r nod o gyhoeddi adroddiad erbyn mis Ebrill 2026.<br>Diwygio'r dyddiad gorffen o 31 Rhagfyr 2025 i 30 Ebrill 2026. |

## 10. Adolygu Digartrefedd (Adroddiad Cenedlaethol)

| Teitl | Statws | Y wybodaeth ddiweddaraf |
|---|---|---|
| (FN01-14) Ffurfio fframwaith, ar y cyd â grwpiau eirioli, a fydd yn grymuso swyddogion i benderfynu / gweithredu, yn enwedig ym maes hawliau dynol a chydraddoldeb a lleihau adolygiadau diangen, heb effeithio ar hawl statudol y cleient i adolygiad.<br>**Dyddiad dechrau:** Mai 2023<br>**Dyddiad gorffen:** Ionawr 2026 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Pennwyd y strwythur rheoli ar gyfer Datrysiadau Tai ac mae Camau Gwella'r Gwasanaeth ar waith, gan gynnwys datblygu fframwaith.<br>Darperir hyfforddiant i staff a chynhelir cyfarfodydd rheolaidd i oruchwylio achosion, er mwyn cynorthwyo swyddogion i benderfynu a chreu fframwaith ar gyfer penderfyniadau.<br>Adolygwyd yr holl lythyrau penderfyniad hefyd, a chyflwynwyd llythyrau newydd.<br>Diwygiwyd y drefn adolygu a darparwyd canllawiau i staff, gyda chyfraniad gan Shelter Cymru ac asiantaethau eraill, ynglŷn â'r modd rydym yn cyfleu penderfyniadau a rheoli adolygiadau a thrafodaethau cyn cynnal adolygiad. Diwygio'r dyddiad gorffen o fis Hydref 2025 i fis Ionawr 2026. |

## 11. Defnyddio Gwybodaeth am Berfformiad (Adroddiad Lleol)

| Teitl | Statws | Y wybodaeth ddiweddaraf |
|---|---|---|
| (FN01-01) Arfarnu'r prosesau ymgysylltu presennol ac atgyfnerthu meysydd ohonynt fel bo'r angen.<br>**Dyddiad dechrau:** Gorffennaf 2024<br>**Dyddiad gorffen**: Rhagfyr 2026 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae amryw ffrydiau gwaith yn mynd rhagddynt i gyflawni'r cam gweithredu hwn. Rydym wedi lansio Sgwrs y Sir, ein Harolwg Ymgysylltu â Budd-ddeiliaid a fydd yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol ynglŷn â'n defnyddwyr yn flynyddol. Gallwn bellach gymryd golwg fwy cynhwysfawr ar y modd rydym yn ymgysylltu fel cyngor, a cheisio gwella ein fframwaith ymgysylltu a phresenoldeb ar-lein (gan gynnwys y modd yr ydym yn adrodd yn ôl i breswylwyr). Un rhan o hynny fydd sefydlu rhwydwaith mewnol o swyddogion allweddol sy'n meithrin cyswllt â chymunedau'n rheolaidd. Yn olaf, er mwyn ategu ein Strategaeth Gwytnwch, rydym yn bwriadu ehangu ein gallu i gynnal gwaith ymchwil er mwyn darparu gwell data a gwybodaeth yn sail ar gyfer ein penderfyniadau.<br>Diwygio'r dyddiad gorffen o 31 Rhagfyr 2025 i 31 Rhagfyr 2026. |
| (FN02-01) Adolygu arddull yr Adroddiad Blynyddol er mwyn arfarnu cynnydd y Cyngor a'r effaith ar ddefnyddwyr gwasanaethau'n fanylach.<br>**Dyddiad dechrau:** Gorffennaf 2024<br>**Dyddiad gorffen:** Gorffennaf 2026 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Adolygwyd ein Hadroddiad Hunanasesu Perfformiad a'r Cynllun Corfforaethol yn ddiweddar ac fe atgyfnerthwyd y Fframwaith Rheoli Perfformiad ar gyfer y Cynllun Corfforaethol yn helaeth (fel y nodwyd yn ein Hadroddiad Hunanasesu Perfformiad). Bydd Sgwrs y Sir, ein Harolwg Ymgysylltu â Budd-ddeiliaid, hefyd yn fuddiol i'r fframwaith a bwriadwn ddefnyddio canlyniadau'r arolwg cyntaf hwnnw yn ein Hadroddiad Hunanasesu Perfformiad ddiwedd y flwyddyn.<br>Diwygio'r dyddiad gorffen o 31 Rhagfyr 2025 i 31 Gorffennaf 2026. |

| Teitl | Statws | Y wybodaeth ddiweddaraf |
|---|---|---|
| (FN02-02) Datblygu egwyddorion allweddol ar gyfer llunio adroddiadau perfformiad gan roi pwyslais ar arfarnu'r canlyniadau a'u cynnwys mewn fframwaith rheoli perfformiad.<br>**Dyddiad dechrau:** Gorffennaf 2024<br>**Dyddiad gorffen:** Medi 2025 | Cyflawnwyd | Mae egwyddorion allweddol ar gyfer llunio adroddiadau da ac arfarnu canlyniadau wedi'u cynnwys yn y Fframwaith Rheoli Perfformiad / Canllawiau Rheoli Perfformiad a ddiwygiwyd yn ddiweddar.<br>Argymhellir dod â'r cam gweithredu hwn i ben. |

**12. Strategaeth Ddigidol (Adroddiad Lleol)**

| Teitl | Statws | Y wybodaeth ddiweddaraf |
|---|---|---|
| (FN03-02) Cynnal ymarfer i arfarnu'n well y buddion (neu fel arall) o drefniadau cydweithio sydd eisoes wedi'u cyflawni ac adolygu'r strategaeth ddigidol i ddeall ble gallai fod yno fwy o gyfleoedd i gydweithio.<br>**Dyddiad dechrau:** Gorffennaf 2024<br>**Dyddiad gorffen:** Mawrth 2026 | Cyflawnwyd | Rydym eisoes yn cydweithio â Chyngor Sir Ddinbych a chynhelir cyfarfodydd yn rheolaidd i adolygu prosiectau digidol a'r buddion sy'n deillio ohonynt i'r naill awdurdod a'r llall. Cynhelir cyfarfodydd misol â Grŵp Penaethiaid TG ledled rhanbarth gogledd Cymru lle trafodir cyfleoedd i gydweithio, yn ogystal â chyfarfodydd bob deufis â'r Grŵp Mynediad Digidol er mwyn adolygu'r cyfleoedd am Gydweithio Digidol ymysg y 22 o Awdurdodau Lleol yng Nghymru (arweinir y gwaith gan Gymdeithas Arloesi, Trawsnewid a Moderneiddio Cymru a Phrif Swyddog Digidol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru).<br>Argymhellir dod â'r cam gweithredu hwn i ben. |

## 13. Datblygu Cynaliadwy – Gwneud y Defnydd Gorau o Dir Llwyd ac Adeiladau Gwag (Adroddiad Cenedlaethol)

| Teitl | Statws | Y wybodaeth ddiweddaraf |
|---|---|---|
| (FN01-01) Datblygu Strategaeth Fuddsoddi, a fydd yn ceisio hyrwyddo'r ardal, hybu ymagwedd o roi canol y dref yn gyntaf a defnyddio Tir a Ddatblygwyd Eisoes / Adeiladau Gwag.<br>**Dyddiad dechrau:** Gorffennaf 2024<br>**Dyddiad gorffen:** Chwefror 2026 | Oren<br>Dan sylw | Ni ddatblygwyd y Strategaeth Fuddsoddi gan nad oes gennym gyllid yn fewnol i gyflawni'r strategaeth a'n bod yn methu â chanfod cyllid allanol i wneud hynny. Er na ddatblygwyd strategaeth fuddsoddi'n llawn, darparwyd Cronfa Ddata Tir Cyflogaeth i'r cyhoedd sy'n nodi safleoedd sy'n gynaliadwy ac ar gael. Mae hynny'n cynnwys yr holl ddyraniadau, eiddo gwag a thir i gefnogi buddsoddwyr. Mae busnesau eisoes wedi defnyddio'r gronfa ddata wrth ystyried symud i Gonwy neu newid i safle arall yn y Sir. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd hefyd yn pennu'r polisi ar gyfer hierarchaeth buddsoddi mewn safleoedd tir llwyd a fydd yn destun ymgynghoriad ddiwedd hydref 2025. |

| Teitl | Statws | Y wybodaeth ddiweddaraf |
|---|---|---|
| (FN01-02) Cefnogi gwaith asedau ehangach yn y gymuned i ddatblygu asesiad o safleoedd y gellir eu cyflawni.<br>**Dyddiad dechrau:** Gorffennaf 2024<br>**Dyddiad gorffen:** Rhagfyr 2025 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Cyflawnir y cam gweithredu hwn mewn dau o feysydd prosiect, sef:<br>**Prosiect 1: Ymgysylltu â chymunedau lleol yng nghyswllt Creu Lleoedd i sicrhau yr ymdrinnir â materion cynllunio lleol.**<br>Mae a wnelo'r prosiect hwn â meithrin cyswllt uniongyrchol â chymunedau lleol lle cynigir safleoedd datblygu cyflawnadwy yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Mae'r gwaith bellach wedi'i gwblhau. Bydd gofyn gwneud mwy o waith yn awr ar ffurf Prosiect 2 isod.<br>**Prosiect 2: Adolygu Canllawiau Creu Lleoedd a Chanllawiau Cydymffurfiaeth.**<br>Mae'r prosiect hwn yn darparu cyngor i gymunedau i'w cynorthwyo i ddod â safleoedd yn eu blaen yn unol â chynllun bro/canllawiau cynllunio atodol a Pholisi'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Mae'n rhoi cyfle i gymunedau arwain/cyfranogi o'r drefn o ddod â safleoedd datblygu cyflawnadwy yn eu blaenau. Ceisir cymeradwyaeth wleidyddol i'r gwaith ym mis Rhagfyr 2025.<br>Diwygio'r dyddiad gorffen o fis Hydref 2025 i fis Rhagfyr 2025. |
| (FN01-03) Adolygu a diwygio'r Pecyn Gwaith Cynlluniau Bro gan gyflwyno Canllawiau Cynllunio Atodol ynglŷn â Chydymffurfio â Chynlluniau Bro.<br>**Dyddiad dechrau:** Gorffennaf 2024<br>**Dyddiad gorffen:** Rhagfyr 2025 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Ceisir cymeradwyaeth wleidyddol i'r gwaith ym mis Rhagfyr 2025.<br>Yn anffodus, bu'n rhaid rhoi blaenoriaeth i'r CDLIN ac felly bu oedi cyn cyflwyno hyn drwy'r drefn ddemocrataidd fel y bwriadwyd yn wreiddiol. Diwygio'r dyddiad gorffen o fis Hydref 2025 i fis Rhagfyr 2025 |
| (FN01-05) Ystyried dulliau adfywio uchelgeisiol ar gyfer ein Strategaeth Fuddsoddi.<br>**Dyddiad dechrau:** Gorffennaf 2024<br>**Dyddiad gorffen:** Chwefror 2026 | Oren<br>Dan sylw | Nid yw'r Strategaeth Fuddsoddi wedi'i datblygu gan nad oes cyllid ar gael yn fewnol nac yn allanol i weithredu'r strategaeth. |

## 14. Menter Gymdeithasol (Adroddiad Cenedlaethol)

| Teitl | Statws | Y wybodaeth ddiweddaraf |
|---|---|---|
| (FN01-03) Adolygu a diweddaru'r weledigaeth yn y Siarter Trydydd Sector fel ei bod yn adlewyrchu gweledigaeth yr awdurdod cyfan.<br>**Dyddiad dechrau:** Mawrth 2024<br>**Dyddiad gorffen:** Rhagfyr 2025 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Adolygwyd perchnogaeth yr argymhelliad hwn. Mae'r gwasanaeth Archwilio Mewnol yn adolygu'r siarter.<br>Diwygio'r dyddiad gorffen o fis Medi 2025 i fis Rhagfyr 2025. |
| (FN01-05) Cynnal ymarfer mapio i ddarparu asesiad gwaelodlin sy'n cynnwys yr holl elfennau perthnasol yn y rhestr wirio.<br>**Dyddiad dechrau:** Mawrth 2024<br>**Dyddiad gorffen:** Rhagfyr 2026 | Oren<br>Dan sylw | Nid oes gennym ddigon o adnoddau ar hyn o bryd oherwydd gweithredu'r gofrestr contractau newydd a pharatoi ar gyfer gweithredu'r ddeddfwriaeth newydd dan Ddeddf Caffael 2023.<br>Diwygio'r dyddiad gorffen o fis Rhagfyr 2025 i fis Rhagfyr 2026. |
| (FN01-06) Datblygu'r Gofrestr Contractau i nodi'r sefydliadau yn y trydydd sector rydym yn eu hariannu.<br>**Dyddiad dechrau:** Awst 2023<br>**Dyddiad gorffen:** Awst 2024 | Cyflawnwyd | Datblygwyd Cofrestr Contractau.<br>Argymhellir dod â'r cam gweithredu hwn i ben. |
| (FN01-07) Datblygu'r broses Rheolau Gweithdrefnau Contractau fel y gall Mentrau Bach a Chanolig ddarparu dyfynbrisiau ar gyfer tendrau yn hytrach na dogfen dendr gynhwysfawr.<br>**Dyddiad dechrau:** Ebrill 2024<br>**Dyddiad gorffen:** Hydref 2025 | Cyflawnwyd | Diwygiwyd y Rheolau Gweithdrefnau Contractau ac maent yn destun trafodaeth drwy'r drefn ddemocrataidd ar hyn o bryd.<br>Diwygio'r dyddiad gorffen o fis Gorffennaf 2025 i fis Hydref 2025.<br>Argymhellir dod â'r cam gweithredu hwn i ben. |

## 15. Ailgylchu a Rheoli Gwastraff (Adroddiad Lleol)

| Teitl | Statws | Y wybodaeth ddiweddaraf |
|---|---|---|
| (FN01-02) Cynnwys dadansoddiad o'r pum ffordd o weithio a rhoi sylw i'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn yr adroddiad democrataidd ar gyfer y Strategaeth Gwastraff.<br>Sonnir ynghylch cyfranogiad y cyhoedd a'r gwersi a ddysgwyd yn yr Adolygiad Perfformiad Gwasanaeth wrth ymdrin â pherfformiad Gwastraff.<br>**Dyddiad cychwyn:** Tachwedd 2024<br>**Dyddiad gorffen:** Medi 2025 | Cyflawnwyd | Mae'r adroddiad democrataidd ar gyfer y Strategaeth Gwastraff yn cynnwys pum ffordd o weithio ac yn rhoi sylw i'r Nodau Lles; cyflwynwyd y strategaeth i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Economi a Lle ym mis Ebrill a rhoes y Cabinet sêl bendith arni ar 13 Mai.<br>Cynhaliwyd Adolygiad Perfformiad Gwasanaeth yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau ym mis Medi a chydnabu'r aelodau'r gwaith da a gyflwynodd y gwasanaeth ym maes Gwastraff, gan gynnwys y modd yr ymdriniwyd â chwynion a sylwadau gan gwsmeriaid.<br>Argymhellir dod â'r cam gweithredu hwn i ben. |
| (FN01-05) Cyflwyno adroddiad blynyddol i'r aelodau ynghylch perfformiad ailgylchu a gwastraff.<br>**Dyddiad cychwyn:** Tachwedd 2024<br>**Dyddiad gorffen:** Medi 2025 | Cyflawnwyd | Cyflwynwyd adroddiad perfformiad i'w gynnwys ym Mriff yr Aelodau ym mis Medi 2025.<br>Argymhellir dod â'r cam gweithredu hwn i ben. |

## 16. Cynaladwyedd Ariannol (Adroddiad Lleol)

| Teitl | Statws | Y wybodaeth ddiweddaraf |
|---|---|---|
| (FN01-01) Gweithredu'r cynllun gwytnwch a thrawsnewid.<br>**Dyddiad cychwyn:** Mawrth 2024<br>**Dyddiad gorffen:** Rhagfyr 2026 | Cyflawnwyd | Lluniwyd Strategaeth Gwytnwch (gan gynnwys trawsnewid) a gymeradwywyd drwy'r drefn ddemocrataidd ym mis Medi 2025. Sefydlwyd rhaglen wytnwch ar sail y strategaeth honno sy'n cynnwys pump o wahanol ffrydiau gwaith a grëwyd i gyflawni amcanion y rhaglen a mesur llwyddiant. Mae'r cynllun gwytnwch yn rhan o'r ffrwd waith rheoli ariannol ac mae'r gwaith yn dod yn ei flaen wrth gyflawni'r camau gweithredu sy'n weddill.<br>Adroddir ynglŷn â'r cynnydd yn gyson drwy'r drefn ddemocrataidd ar ffurf ein hadroddiadau Hunanasesu Perfformiad bob chwe mis (Nod 1 yn y Cynllun Corfforaethol).<br>Argymhellir dod â'r cam gweithredu hwn i ben. |

## 17. Comisiynu Lleoliadau Cartrefi Gofal Pobl Hŷn (Adroddiad Lleol / Rhanbarthol)

| Teitl | Statws | Y wybodaeth ddiweddaraf |
|---|---|---|
| (FN01-01) Mae angen i Gynghorau Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr sicrhau y defnyddir cytundebau cyn lleoli yn gyson ledled y rhanbarth.<br>**Dyddiad cychwyn:** Chwefror 2022<br>**Dyddiad gorffen:** Rhagfyr 2025 | Oren<br>Dan sylw | Roedd y drafft diweddaraf o'r Cytundeb Cyn Lleoli rhanbarthol a gyhoeddwyd ym mis Awst 2025 yn cynnwys dau o ddiwygiadau na fedrai'r Cyngor eu derbyn. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt ynglŷn â'r diwygiadau hynny gyda'r nod o ddod i gonsensws fel bod modd mabwysiadu'r drafft terfynol. Os bydd angen, cyflwynir adroddiad drwy'r drefn ddemocrataidd i benderfynu a fedr y Cyngor ddal ati â'r dull rhanbarthol o weithredu'r Cytundeb Cyn Lleoli. Rhagwelir y penderfynir hynny erbyn diwedd mis Rhagfyr 2025. |

## 18. Adolygiad Cyflym o Drefniadau Amddiffyn Plant (Adroddiad Cenedlaethol)

| Teitl | Statws | Y wybodaeth ddiweddaraf |
|---|---|---|
| (FN02-01) Mae angen sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen Amlasiantaethol penodol i ystyried y cyfrifoldebau ar y cyd am gadeirio cyfarfodydd y grŵp craidd a chymryd cofnodion ynddynt.<br>**Dyddiad cychwyn:** Medi 2023<br>**Terfyn amser**: Rhagfyr 2025 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Sefydlwyd grŵp tasg a gorffen sy'n adolygu'r gynrychiolaeth mewn cyfarfodydd strategol. Cytunodd y grŵp i godi'r mater â phartneriaid yn y Fforwm Diogelu Amlasiantaethol (Rhagfyr 2025), ac mae presenoldeb wedi cynyddu yn sgil hynny. |

## 19. Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng - Llif allan o'r ysbyty (Adroddiad Rhanbarthol)

Cyflwynwyd adroddwyd ynglŷn â'r cynnydd i Bwyllgor Craffu Cyngor Sir Ddinbych ar Ebrill 3 2025. Mae'r adroddiad llawn a'r cynllun gweithredu fel y'i diwygiwyd i'w gweld drwy glicio ar y ddolen gyswllt uchod.